

urdd.org

COD YMDDYGIAD AR GYFER CYSTADLEUWYR, HYFFORDDWYR, RHIENI A CHEFNOGWYR

Mae Urdd Gobaith Cymru yn disgwyl i gystadleuwyr, hyfforddwyr a chefnogwyr ymrwymo i ysbryd o chwarae teg yn holl weithgareddau'r mudiad.


Bwriad gweithgareddau'r Urdd yw sicrhau cyfle i aelodau'r Urdd gystadlu a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol a hynny o dan amodau ac ysbryd o chwarae teg, ac mewn awyrgylch gwbl ddiogel.

Ni ddylid ar unrhyw gyfrif:

- difrio cystadleuwyr eraill na'u chefnogwyr
- ddadlau neu weiddi'n amharchus tuag at swyddogion yr Urdd nac unrhyw un arall. Dylent annog eraill i beidio ag ymddwyn yn y fath modd
- ymddwyn yn fygythiol neu'n ymosodol tuag at eraill yn gorfforol neu ar lafar
- beirniadu cystadleuwyr eraill yn gyhoeddus neu eu rhoi o dan bwysau annheg ac o dan straen a gofid
- annog neu awgrymu twyllo
- ymddwyn mewn modd annerbyniol at gystadleuwyr a chefnogwyr
- rhoi pwysau gormodol ar eu plant a phobl ifanc a'u beirniadu'n gyhoeddus
- cwestiynu yn gyhoeddus unrhyw benderfyniad gan feirniad / ddyfarnwr neu swyddog yr Urdd.

Dylid

- parchu cyd aelodau'r Urdd a dangos chwarae teg i bawb
- cystadlu oddi fewn i'r rheolau
- parchu swyddogion yr Urdd, athrawon a chefnogwyr eraill gan dderbyn penderfyniadau beirniaid / dyfarnwyr a swyddogion.
- Cyfeirio unrhyw gwyn yn y lle cyntaf i Arweinydd y Gangen a thrwyddynt hwy i Swyddogion yr Urdd
- Dylid dilyn y drefn briodol wrth godi unrhyw gŵyn neu sylw (ffurflen bwrpasol ar gael o'r we: www.urdd.org)



urdd.org

Taflen cofnodi Cwyn

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif Ffon:

Ebost:

Cwyn parthed:

Sylwadau:

Llofnod: _____

Dyddiad: _____